



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 ("y Prif Reoliadau"). Maent yn darparu ar gyfer y lefelau gofynnol isaf o gymwysterau a phrofiad ar gyfer rheolwyr a staff cartrefi plant, dynodi aelod o staff cartref plant i ddiogelu a hybu lles pob plentyn a leolir yn y cartref o ran iechyd ac addysg, cofrestru staff a rheolwyr gyda Chyngor Gofal Cymru, y niferoedd gofynnol o staff parhaol, gofyniad i sicrhau bod plant yn mynd at ddeintydd, ac yn gwneud mân ddiwygiadau eraill i'r prif Reoliadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae yna wahaniaeth sylweddol rhwng y pwerau a enwir yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, gyda'r testun Cymraeg yn fwy cyflawn, gan ei fod yn cynnwys yr holl bwerau â enwyd ar gyfer y Prif Reoliadau. Nid yw'r pwerau sy'n berthnasol i reoliad 3 yn cael eu henwi yn y naill na'r llall, sef y rhai sydd wedi'u cynnwys yn adran 12(2) ac 16(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1), dylai'r cyfeiriad at "unrhyw gyfeiriad mewn paragraff â rhif" gyfeirio at "unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif", er mwyn cyfateb i'r testun Saesneg cywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn y diffiniad o "gweithiwr dolen gyswllt" dylid mewnosod y gair "unigol" ar ôl y gair "plentyn" i gyfateb i'r cyfeiriad yn y testun Saesneg at "individual child". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae rheoliad 2(10) yn mewnosod darpariaethau newydd yn rheoliad 26 o'r Prif Reoliadau. O gofio'r ffordd y caiff paragraffau arfaethedig (2B) a (2C) eu strwythuro, dylid mewnosod y gair "by" ar ddechrau is-baragraff (b) ym mhob achos yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 2(12) yn y testun Saesneg yn honni ei fod yn gwneud newidiadau i baragraffau (2)(c) (iv) a (4)(a) o reoliad 33 y Prif Reoliadau. Oni bai y caiff y darpariaethau hynny eu mewnosod gan ddeddfwriaeth arall (a fyddai'n golygu bod angen troednodyn addas) ymddengys nad ydynt yn bodoli. Nid oes darpariaeth gyfatebol yn y testun Cymraeg, felly mae rhifau'r paragraffau dilynol yn anghyson. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Mae strwythur testun Cymraeg paragraffau 2B a 2C a fewnosodwyd gan reoliad 2(10) ar dudalen 5 yn anodd ei ddilyn. Tra bo'r Saesneg yn defnyddio'r strwythur "that person is not fit to work ... unless...", mae'r testun Cymraeg yn defnyddio "ni fydd y person hwnnw heb fod yn ffit i weithio ... ar yr amod..." [that person is not unfit to work ... on condition]. Byddai strwythur tebycach i'r Saesneg fel "ni fydd y person hwnnw yn ffit i weithio ... oni bai..." yn well.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

30 Ionawr 2007